**TUDALEN 04**

Cofnodion y **Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau** a gynhaliwyd trwy fideo-gynadledda Zoom **nos Lun 17 Mai 2021** am 6.30 pm.

**YN BRESENNOL: -** Eu Teilyngdod y Maer Cynghorydd Owen Hurcum (yn y Gadair), Y Dirprwy Faer Cynghorydd Gwynant Roberts
Cynghorwyr : Les Day, Luke Tugwell, Medwyn Hughes, Huw Wyn Jones, Enid Parry, Elin Walker Jones, John Martin, John Wynn Jones, Kieran Jones, Mair Rowlands, Nigel Pickavance, John Wyn Williams, Dylan Fernley.

Swyddogion:- Iwan Williams, Cyfarwyddwr Dinesig, Gwynfor Owen (Cyfieithydd) Sioned Jones (Cofnodion)

**11/21 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Ifan James.

**12/21 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Datganodd Eu Teilyngdod y Maer, oherwydd eu bod yn gweithio ym Mhier y Pafiliwn, na fyddent yn cymryd rhan yn eitem Adolygiad o'r Gofrestr Asedau a) Pier Garth Bangor - cais y Pafiliwn.

**13/21 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**
Dim.

**14/21 PENODI AELODAU'R PWYLLGORAU**

**Y 2 brif Bwyllgor**: Gan mai hwn oedd y cyfarfod cyntaf yn dilyn ailstrwythuro'r Pwyllgorau, cafwyd trafodaeth ynghylch pwy fyddai'n eistedd ar ba Bwyllgor. Eglurodd y Cyfarwyddwr Dinesig mai'r syniad oedd cael 10 aelod yr un ar y pwyllgorau, gydag o leiaf un o bob Ward arno. Roedd Eu Teilyngdod y Maer yn teimlo y dylid rhannu'r pleidiau gwleidyddol hefyd. Wedi tipyn o drafodaeth, dyrannwyd pob aelod i naill ai'r Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau neu'r Pwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid. Llwyddwyd i rannu'n gyfartal rhwng aelodau o'r un ward. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd ymlyniad gwleidyddol mor bwysig yma gan fod pawb yn gweithio er budd dinasyddion Bangor.
**PENDERFYNWYD** – y Cyfarwyddwr Dinesig i gysylltu â'r aelodau oedd yn absennol er mwyn tynnu rhestr derfynol o'r aelodaeth.

**Cynllunio**
**PENDERFYNWYD** hefyd y byddai'r Pwyllgor Cynllunio yn cynnwys naill ai aelodau'r Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau, neu aelodau'r pwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid, yn dibynnu pa bwyllgor oedd yn cyfarfod y noson honno. Byddai croeso i'r aelodau eraill ymuno â'r Pwyllgor Cynllunio ond ni fyddai ganddynt bleidlais. Byddai Cadeirydd y naill Bwyllgor neu'r llall yn cadeirio cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio y noson honno. Fel arall, byddai'r aelodau i gyd yn mynychu pe bai Pwyllgor Cynllunio'n cael ei gynnal yr un noson â

Chyngor Llawn. Dim ond ar gyfer trafod ceisiadau cynllunio strategol y byddai cyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio yn cael eu cynnal.

Cynigiwyd cynnal y Pwyllgor Cynllunio cyn y prif Bwyllgor gan y byddai hyn yn sicrhau y byddai pob aelod sy'n dymuno hynny, yn bresennol i gael dechrau am 6.30pm.

Pe bai angen cyfarfodydd cynllunio rhwng cyfarfodydd a drefnwyd, byddai'r rhain yn cael eu galw ar sail *ad hoc*.

**Anfonebau**
Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â gwirio anfonebau os nad yw'r pwyllgorau'n mynd i fod yn cyfarfod mor aml ag o'r blaen. Y Cyfarwyddwr Dinesig i edrych beth yw'r sefyllfa ar anfonebau'n mynd i bwyllgor ac i sicrhau fod gofynion archwiliad yn cael eu bodloni.

**15/21 PENODI CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD I'R PWYLLGOR**

Cynigiwyd ac eiliwyd enw Cyng Mair Rowlands. Roedd pawb o blaid.

Cynigiwyd ac eiliwyd Cyng Medwyn Hughes i fod yn Ddirprwy iddi.

Fodd bynnag, gan nad yw'r Pwyllgorau wedi'u cadarnhau eto (yn y Cyngor Llawn ar 28 Mehefin), cynigiwyd fod y Maer yn parhau yn y Gadair i'r cyfarfod hwn. Roedd pawb o blaid.

**16/21 CADARNHAU PENDERFYNIADAU**

Yn yr un modd, gan nad oedd y Pwyllgorau wedi'u cadarnhau'n llwyr, byddai pob penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod hwn yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor Llawn ar 28 Mehefin.

**17/21 ADOLYGIAD O'R GOFRESTR ASEDAU**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Dinesig yr adolygiad Asedau, fel a ganlyn:

**A – Pier Garth Bangor**

- Yn gweithio ar y cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri, angen mwy o fanylion union gostau (cost gyffredinol £170k-£250k). Pum prif gynnig: sefydlu glanfa fechan; adfer y jeti; adeiladau dau giosg newydd; cyflwyno pwyntiau e-wefru i feiciau ger y fynedfa; cyflwyno hanes y Pier drwy fyrddau gwybodaeth/dehongli; arwyddion;
- Penblwydd 125 y Pier: Dadorchuddio plac gan y Maer 14 Mai, goleuo'r Pier yn yr hwyr. Cyhoeddi Rhaglen Ddigidol ar-lein hefyd. Dros y 12 mis nesaf, cyfres o sgyrsiau/cyfweliadau ar-lein yn tynnu sylw at hanes y Pier a'r Garth. Yn amodol ar gyfyngiadau Covid, posibilrwydd o gael digwyddiadau bach o ddiwedd yr haf ymlaen. 4 Medi: dyddiad arfaethedig nofio Biwmares-Bangor a 'Neidio oddi ar y Pier' (Codi Arian Awyr Las BIP Betsi Cadwaladr);

**TUDALEN 06**

- Codi arian ar y Pier; Bydd gan Ffrindiau Pier Garth Bangor wirfoddolwyr ar fynedfa'r Pier a'r ciosg arall, dylai hyn helpu i godi arian. Yn ychwanegol, rhannwyd y cynnig 'Bwydo Bwystfil y Fenai' ar y fynedfa gydag ysgolion Bangor, croesewir lluniau tan 31 Mai. Cynigiwyd cael darllenydd cerdyn i'r fynedfa a bariau'r maes parcio (problemau mynych gyda defnyddio arian parod);
- Yswiriant: Yn disgwyl i gwmni yswiriant roi pris am bolisi yswiriant byrdymor seiliedig ar y môr. Argymhellir fod y Cyngor yn mabwysiadu'r polisi hwn;
- Cais y pafiliwn. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt am y posibilrwydd o gael trwydded alcohol i'r Pafiliwn. Gall fod angen grŵp gorchwyl a gorffen i drafod hyn ymhellach er mwyn cael rhywfaint o gyfeiriad/eglurder gan Gyngor y Ddinas;
- Archwiliad yr uwchstrwythur: Gallai gwneud y gwaith hwn olygu fod unigolion angen mynediad ar raff ar hyd y Pier i archwilio a thrin y strwythur yn iawn. Nid oes risg uniongyrchol, ond gallai oedi ar y gwaith hwn arwain at gostau uwch i'r Cyngor dros y tymor hir. Mae angen sylw a chynnal a chadw penodol ar un ciosg hefyd i sicrhau ei osodiad. Rhywbeth y gallai'r Cyngor ei ystyried ar gyfer cyllideb 2022/23.
- Tŷ'r Pierfeistr ac iard y Cyngor: Mae angen gwaith ar seiliau'r tŷ, a fyddai'n cael ei wneud gan staff y Cyngor. Ochr yn ochr â hyn mae mater iard y Cyngor. Nid yw Nantporth yn ddewis i symud offer a chyfarpar y Cyngor yno, a phe byddai'n fwriad gan y Cyngor i werth safle iard y Cyngor, bydd angen i'r Cyngor feddwl am safle arall i'r cyfarpar.
- Trosglwyddo les y bwyty Eidalaidd: mae trafodaethau'n parhau rhwng y partïon perthnasol;
- Bydd swyddfa'r Pier (dau portacabin gwerth £10k) yn cael eu symud wedi i'r orsaf bwmpio gael ei gosod a thynnu'r *linkspan* (targed diwedd yr haf).

**B Nantporth**

- Mae trafodaethau'n parhau rhwng Nanporth CIC a Chlwb Pêl-droed Dinas Bangor ynghylch taliadau/trefniadau rhent;
- Gyda Phwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau yn ei le, oni ddylai'r Pwyllgor ymgorffori is-bwyllgor Nantporth? Neu a ddylai'r is-bwyllgor aros yn ei le?

**C – Coedydd Menai**

- Mae angen monitro rheolaidd, yn enwedig mewn tywydd drwg. Mae angen mwy o waith cynnal a chadw ar y llwybr isaf. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae'r coedydd hyn yn risg isel ac yn cael eu gwerthfawrogi gan y trigolion.

**D – Coedydd Penrhyn Arms**

- Ychydig o bobl sy'n ymweld â'r safle hwn ac nid yw wedi cael ei gynnal a'i gadw. Fel ased risg uchel (disgynnodd coeden yn 2019), gallai gwerthu'r coedydd hyn ddod ag incwm i'r Cyngor, yn amodol ar ganiatâd cynllunio.

**E – Caeau Ashley Jones**

**TUDALEN 07**

- Yn dilyn plannu'r Coed Sakura yn ddiweddar a'r Bwrdd Gwybodaeth a'r fainc gyfeillgarwch sydd ar fin cyrraedd, awgrymwyd nifer o syniadau i wella'r caeau e.e. cael lle chwarae i blant; cyflwyno blodau gwyllt; agor y nant sy'n rhedeg drwy'r caeau. Mae'r caeau yn ased gwerthfawr i'r Cyngor gyda digonedd o botensial ac mae angen trafodaethau pellach ynghylch golwg a defnydd y caeau hyn. Mae'r ffaith fod rhai pobl yn gadael eu cŵn yn rhydd a baw cŵn yn un broblem gyda'r caeau

**F – Cae Dargie**

Mae'r ardal hon bellach yn mynd rhwng y cŵn a'r brain ac mae angen buddsoddiad sylweddol i wneud yr ardal yn ddiogel – e.e. dargyfeirio'r llwybrau, seddi newydd, atgyweirio'r wal ayb. Bu Cyngor y Ddinas yn gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru, sydd wedi cael cryn broblemau ar y safle dros nifer o flynyddoedd gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau a gangiau llinellau cyffuriau. Fel ased risg uchel, gallai gwerthu'r cae ddod ag incwm i'r Cyngor.

**+ Tŵr y Cloc**

- Mae angen rhywfaint o waith cynnal a chadw ar dŵr y cloc, a fyddai'n costio tua £20k i'r Cyngor. Mae hwn yn rhywbeth i'w ystyried yng nghyllideb 2022/23.

**Sylwadau**

Gadawodd Eu Teilyngdod y Maer y cyfarfod yn ystod trafodaeth ar 7a, Trwydded i'r Pier.

a. Pier Garth Bangor

   Bu'r aelodau'n trafod y cais am drwydded alcohol a'r cyfleoedd a'r pryderon a oedd ynghlwm wrth gais o'r fath. Awgrymwyd cael gweithgor i ystyried yr holl oblygiadau ar yr adeg briodol.

   Awgrymwyd fod tŷ'r Pierfeistr yn gaffaeliad i'r ddinas ac y gellid ei drosi i'w ddefnyddio mewn nifer o ffyrdd yn yr hirdymor.

   Uwchstrwythur y Pier – eglurodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod y swm hwn yn rhan o gynllun cynnal a chadw cyffredinol a oedd wedi llithro yn yr 1980au. Erbyn hyn adferwyd y pier i safon uchel, felly bydd hyn yn osgoi costau mawr yn y dyfodol.

b. Nantporth - gan fod is-bwyllgor yn bodoli'n barod ar gyfer Nantporth, sy'n hollol gyfarwydd â'r cyd-destun a'r cefndir, cynigiwyd gadael y pwnc hwnnw i'r is-bwyllgor ei drafod.

c. (hefyd d-f) Mannau gwyrdd. Rhoddodd aelodau awgrymiadau am ddefnyddio a gwella mannau gwyrdd y ddinas, er budd y cyhoedd. Serch hynny, cydnabuwyd fod yna rai oedd yn achosi problemau. Roedd Cae Dargie yn arbennig yn broblem a gallai fod yn well gwerthu hwn.

   Nodwyd fod mannau gwyrdd eraill ym mherchnogaeth y Cyngor ac y dylid edrych felly ar yr holl asedau gyda'i gilydd.

**TUDALEN 08**

**18/21 DIWEDDARIAD Y STRYD FAWR**

**Adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig ar y canlynol**
Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt i sefydlu Hyb Iechyd a Lles yng nghanol y ddinas; mae'r farchnad awyr agored yn gobeithio ailddechrau tua diwedd Mehefin; roedd trafod yn dal i ddigwydd ond y gobaith oedd y byddai stondinau'n gwerthu nwyddau hanfodol yn eu lle; gobeithir y bydd y gwaith dymchwel ac atgyweirio yn Rhifau 164-166 Stryd Fawr wedi'i cwblhau erbyn diwedd yr Haf ac y gallai'r rhan honno o'r Stryd Fawr ail-agor o'r diwedd.

Cynigiwyd trafod sefydlu menter bartneriaeth i'r Stryd Fawr.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad a thrafod partneriaeth mewn cyfarfodydd o'r Cyngor / Pwyllgor yn y dyfodol.

**19/21 CYNNIG FFAIR FFORDD Y TRAETH**

Adroddwyd fod y Ffair yn dymuno dychwelyd i Ffordd y Traeth o 15-18 Gorffennaf 2021 ac mae Cyngor Gwynedd wedi gofyn am sylwadau gan y Cyngor. Awgrymodd y Cyng Pickavance, sydd ar Grŵp Carnifal Bangor, y byddai hyn o fudd mawr i Fangor yn yr haf. Yn amlwg, byddai'n rhaid cydymffurfio ag asesiadau risg a rheolau Covid. Awgrymwyd creu cysylltiad rhwng y Ffair a Ffrindiau Pier Garth Bangor: gallai'r ffair roi cyfraniad i'r Ffrindiau a gellid annog pobl i fynd o'r naill le i'r llall.

**20/21 BLAENORIAETHAU'R PWYLLGOR 2021/22**
Bu'n rhaid i'r Cyng Pickavance adael y cyfarfod yn y fan hon.

Gwnaed y pwynt y dylai'r blaenoriaethau gael eu gosod ar ddechrau cyfarfod cyntaf gwirioneddol y Pwyllgor Asedau, pan fyddai'r holl aelodau wedi'u cadarnhau. Fodd bynnag, teimlid y dylai'r Cyngor llawn fod â rhan mewn gosod blaenoriaethau. O'r flwyddyn nesaf, bydd yn ofynnol ar i bob Cyngor gynhyrchu Cynllun Blynyddol, felly byddai'n arfer da dechrau meddwl fel hyn. Cynigiwyd fod angen cyfarfod ar wahân i wneud hyn, yn fwy fel gweithdy, er mwyn pennu gweledigaeth a blaenoriaethau i'r Ddinas.
**PENDERFYNWYD** cynnal gweithdy i'r Cyngor i drafod Strategaeth. Hwn i gael ei gynnal **nos Lun, 7 Mehefin 2021.**

**21/21 ANFONEBAU I'W TALU**

Hysbyswyd y Cyngor gan y Cyfarwyddwr Dinesig fod anfonebau wedi'u cymeradwyo i'w talu gan y Maer a'r Dirprwy Faer, fel y manylwyd arnynt ar y rhestr, yn dod i gyfanswm o £27,551.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, eglurodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod y gwaith ar yr orsaf bwmpio wedi'i orffen yn gynt na'r disgwyl; dyna pam y'i cyflwynwyd fel eitem ar wahân. Roedd angen gwneud ymholiadau am y bil trydan gan nad oedd staff y Cyngor wedi
**TUDALEN 09**

bod yn gweithio yn y swyddfeydd ers misoedd. Cynigiwyd hefyd y dylid cael un cyflenwr yn hytrach na chwmni ar wahân i Neuadd y Penrhyn.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddiad yn amodol ar gael eglurhad am yr uchod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.40 pm.**

CITY DIRECTOR– Iwan Williams – CYFARWYDDWR DINESIG